



Capel Y Tabernacl Efail Isaf



22 Ionawr 2017

Croeso cynnes iawn i Mererid Hopwood i'n plith y bore 'ma a diolch yn fawr i Iwan a Bethan am eu cyfraniadau. 300 mlynedd yn ôl y ganwyd William Williams, Pantycelyn.

Mae croeso i chi hyrwyddo gweithgareddau ein cymuned trwy'r daflen wythnosol. Ebostiwch geraintrees@hotmail.com.

Tafod y Tab

Mae rhifyn mis Ionawr o **Tafod y Tab** newydd ei gyhoeddi. Holwch eich Gofalwr Ardal lleol am gopi. Os nad ydych ar restr un o'r dosbarthwyr lleol, cewch gopi gan Lowri Roberts neu Emlyn Davies. Diolch yn fawr i Emlyn ac Ann am eu gwaith wrth baratoi'r rhifyn ac am y cyfraniadau a ddaeth i law.

Bwrdd Cyfarwyddwyr

Bydd y cyfarfod nesaf am 7.30 nos Fawrth 17 Ionawr. Rhowch wybod i Gwilym Huws os oes rhywbeth y teimlwch y dylid ei drafod yno. Diolch.

Y SULIAU NESAF

Ionawr 29 Rhiannon Humphreys yn llywyddu, y Parchg. Gethin Rhys, a Sian yn cyfeilio
Chwefror 5ed – Carol Williams yn llywyddu, myfyrdod gan Emlyn
Chwefror 12fed – Carwyn Lloyd Jones yn llywyddu, myfyrdod gan y Parchg. Aled Edwards
Chwefror 19 – Oedfa deuluol gyda Dafydd a Lowri Roberts
Chwefror 26ain – Bethan Herbert yn llywyddu, myfyrdod gan y Parchg. Gethin Rhys
Mawrth 5ed – Criw Ton-teg

MERCHED Y TABERNACL

Ionawr 31 am un o'r gloch
Cyngerdd awr ginio yn Neuadd Dewi Sant.
Sioned Gwen Davies.
Hi fydd yn cynrychioli Cymru yn 'Canwr y Byd' 2017.

Y PWYLLGOR GOFAL

Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor gofal yn y ganolfan, bnawn Sul Ionawr 22 am 2 o'r gloch Mae'r criw yn awyddus iawn i ddenu aelodau newydd – yn enwedig o blith rhieni'r Ysgol Sul. Nod y grwp yw cynnig gofal ac estyn llaw. Am fanylion pellach cysylltwch â Lowri ar lowri@glancreigiau.plus.com

NEWYDDION TEULUOL

Gwellhad buan i Ann Rees sydd newydd gael ei chlun newydd.

DAL I GASGLU

Mae'r casglu'n parhau ar gyfer Teuluoedd mewn Argyfwng a phrosiect Adref. Os oes gennych ddiplad plant, diplad gwely, sachau cysgu, neu nwyddau ymolchi, mae modd i chi eu gadael yn llofft y capel fel arfer, a bydd John yn sicrhau eu bod yn cyrraedd pen eu taith. Diolch i chi am eich cefnogaeth.

Cofiwch fod pob gwybodaeth am fywyd yr eglwys ar gael ar y wefan, www.tabernacl.org ac os hoffech chi ragor o fanylion am unrhyw agwedd, cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws: gehpengwern@yahoo.co.uk/
07710 237327



Os ydych yn gwybod am newyddion i'w rannu er mwyn hwyluso'n gallu i gefnogi'n gilydd a'n cymuned, plis rhowch wybod. Mae'r pwyllgor gofal yn frwd i gefnogi mewn ffyrdd personol fesul pentref, a'r gweithgor cyfiawnder cymdeithasol/elusennau yn barod iawn eu cefnogaeth hwythau mewn ffyrdd eraill.

Y Safle

Gallwch gysylltu â [loan ar 07505 323299](tel:07505323299)

Mae [bwcio'r Ganolfan neu'r Capel](#) yn hawdd. Ffoniwch neu decstiwch 07816 341 527 neu 07539 452130 neu carolinerees2@hotmail.com

PROSIECT YSGOLION CYMORTH CRISTNOGOL

Mae Cymorth Cristnogol Cymru yn chwilio am wirfoddolwyr i helpu gyda fersiwn Gymraeg prosiect Cystadleuaeth Barddoniaeth Divine yn ysgolion Cymru. Y bwriad ydy cynyddu gwybodaeth plant ysgol am Nwyddau Masnach Deg. Mae'r wybodaeth i gyd mewn ebost o'r swyddfa yng Nghaerdydd anfonwyd ymlaen atoch yn ystod yr wythnos

**Cwrdd Chwarter Cyfundeb
Dwyrain Morgannwg
HEDDIW 3:00 o.m
Bethlehem Gwaelod y garth
"Y Ffordd" dan arweiniad Robin Samuel**

CASGLIAD YR AMLENNI ELUSEN

Elusennau 2017

	Gofalwyr Ifanc, Rhondda Cynon Taf
	Helpu'r digartref yng nghymoedd y De
	Ysgol Tŷ Coch
	Cymorth i Ferched
	Pedal Power